Cyngor Abertawe Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 8 Gorffennaf 2020 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R V Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| J P Curtice | M Durke | B Hopkins |
| O G James | L R Jones | M B Lewis |
| D W W Thomas | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Damien Beech | Pennaeth Uned y Cyfnod Cynradd |
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Helen Morgan-Rees | Pennaeth Cyflawniad a Phartneriaeth Addysg |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M A Langstone a Nick Williams.

---

## 39 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 40 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2020 fel cofnod cywir.

## 41 Diweddariad y Gwasanaeth Addysg a Thrafodaethau Pellach ar y Cynllun Gwaith ar gyfer 2020/2021 (Ar lafar).

Croesawodd y Cadeirydd aelodau a swyddogion i gyfarfod cyntaf y pwyllgor ers dechrau'r cyfyngiadau symud ac effeithiau pandemig COVID-19.

Adroddodd fod y gwaith ar adroddiad drafft y Cabinet am y Cwricwlwm Newydd wedi cael ei ohirio yn ystod y pandemig gan fod angen i swyddogion ymdrin â materion eraill a oedd yn bwysicach. Dywedodd hefyd efallai y bydd angen ailystyried y 3 maes pwnc a gytunwyd gan yr aelodau yn ystod y cyfarfod diwethaf i'w hadolygu yn y dyfodol, a/neu ychwanegu atynt er mwyn cynnwys unrhyw faterion penodol sydd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i COVID-19.

Adroddodd Helen Morgan-Rees fod swyddogion wedi ailddechrau’r gwaith ar yr adroddiad drafft am y cwricwlwm newydd a dywedodd y byddai'n barod i'r aelodau ei ystyried erbyn diwedd mis Gorffennaf.

Yna, rhoddodd ddiweddariad llafar i'r pwyllgor am sut mae'r adran wedi mabwysiadu 'cynllun parhad dysgu' yn ystod y pandemig. Dau brif nod y cynllun hwn oedd diogelu lles a dysgu'r disgyblion trwy ddysgu o bell a chefnogaeth o safon a thrwy weithio gyda phenaethiaid, swyddogion awdurdodau lleol, rhwydweithiau ac undebau i lunio ffyrdd newydd o weithio.

Roedd yr ymagwedd hon yn cynnwys y deg prif amcan canlynol:

- Cefnogi teuluoedd sydd dan anfantais yn ddigidol;
- Darparu cyngor ac arweiniad i gefnogi teuluoedd (lles a dysgu);
- Rhannu adnoddau o ansawdd uchel ac arfer gorau i gefnogi lles a dysgu o bell ar draws ysgolion;
- Darparu adnoddau a chyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) o safon i ysgolion;
- Ystyried ymagweddau er mwyn lliniaru yn erbyn bylchau'n lledaenu rhwng grwpiau o ddisgyblion (e.e. disgyblion o gefndiroedd difreintiedig, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Saesneg fel iaith ychwanegol etc.);
- Hyrwyddo dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (gan gynnwys cefnogi disgyblion mewn ysgolion Cymraeg o gefndiroedd Saesneg eu hiaith);
- Darparu arweiniad a chefnogaeth i ysgolion a llywodraethwyr ar fusnes ysgol;
- Ystyried sut gallai ysgolion ailagor yn ddiogel;
- Cefnogaeth dechnegol i ysgolion gyda graddau wedi'u hasesu ar gyfer TGAU a Safon Uwch a materion eraill sy'n berthnasol i ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau, e.e. Blwyddyn 10/12;
- Pontio - cynradd/uwchradd ac uwchradd/ôl-16.

Amlinellodd yr ymarfer cwmpasu ac ymchwil helaeth a gynhaliwyd i ddod o hyd i’r disgyblion hynny sydd dan anfantais yn ddigidol a darparwyd mwy na 550 o ddyfeisiau a 400 o becynnau wi-fi cartref i'r disgyblion hynny i’w galluogi i ddysgu gartref, yr oedd rhai ohonynt wedi’u hariannu trwy grantiau gan Lywodraeth Cymru.

Mae Datblygiad Ysgol Rithiwr Abertawe (YRhA)
https://swanseavirtualschool.org/cy/tudalenflaen/
wedi bod yn ddatblygiad rhagorol y gall yr awdurdod fod yn falch iawn ohono, o gofio’r graddfeydd amser. Mae'r ysgol rithwir yn cynnwys cyflenwad eang o wybodaeth amrywiol, gwersi enghreifftiol ar-lein, cyngor i ddisgyblion/rieni/ofalwyr a dolenni i DPP i staff.

Amlinellodd y darpariaethau gofal plant sydd ar waith mewn ysgolion ar gyfer plant 'gweithwyr allweddol', ac amlinellodd yr ymagwedd a ddatblygwyd i helpu pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl a'r rheini ag anghenion ADY.

Amlinellodd y gefnogaeth a'r cyngor a roddwyd i gyrff llywodraethu hefyd.

Dywedodd ei bod hi’n debygol y byddai'r rhaglen dysgu cyfunol o ddarpariaeth ysgol/ddigidol/gartref yn parhau yn nhymor yr hydref, gan ddibynnu ar y gyfradd ailheintio a chyngor gan Lywodraeth Cymru.

Amlinellodd y gwaith a wnaed gyda Blwyddyn 11 ar gyfer 2020 a'r asesiadau a gynhaliwyd ar gyfer canlyniadau arholiadau eleni. Erys disgyblion Blwyddyn 11 2021 a sut yr effeithir ar eu hastudiaethau/arholiadau yn bryder ac ni wnaed penderfyniad ynghylch hyn eto. Mae’r broses bontio i'r ysgol uwchradd ar gyfer plant Blwyddyn 6 eleni hefyd yn achosi pryder, er bod teithiau rhithwir a chyflwyniadau ar-lein i'r ysgol a'r athrawon newydd wedi helpu'r sefyllfa.

Yna, amlinellodd Damian Beech yn fanylach y DPP a'r adnoddau ansawdd uchel sydd ar waith
ac sydd ar gael i ysgolion a'u staff trwy YRhA a'r rhwydweithiau cynradd ac uwchradd amrywiol a hen sefydledig. Mae'r wefan hefyd yn cyfeirio athrawon at feysydd arfer gorau ac yn nodi gweithgareddau ar-lein y gellir eu defnyddio.

Dywedodd y cynhaliwyd gweminar lwyddiannus iawn ymwneud â dysgu cyfunol yr wythnos diwethaf gyda thros 300 o athrawon yn 'bresennol'. Roedd gweminar ychwanegol hefyd yn cael ei chynnal heddiw ynghylch dosbarthiadau ar-lein.

Amlinellwyd bod ERW wedi rhyddhau adnoddau hefyd i helpu gyda datblygiad a darpariaeth dosbarthiadau Cymraeg. Dywedodd hefyd fod deg aelod o staff wedi cofrestru ar gyfer dosbarthiadau sabothol. Rhoddodd fanylion y cysylltiadau a ddatblygwyd gyda Book Trust Cymru a grŵp theatr ar-lein.

Tynnodd sylw at y swm enfawr o ymchwil, gwaith, ymdrech a chyd-drefnu a fu ynghlwm wrth gynllunio ar gyfer ailagor ysgolion. Esboniodd yr arfer da yr arsylwyd arno, yr asesiadau risg a gwblhawyd, a mewnbwn ysgolion, undebau, AD, cyfreithiol a'r is-adran cludiant a gyfrannodd at y broses ailagor. Ymgynghorwyd â rhieni ynghylch y cynigion hefyd.

Amlinellodd fod y dasg o gael gafael ar y cyfarpar amddiffyn personol (PPE) angenrheidiol ar gyfer pob ysgol wedi bod yn un enfawr. Daethpwyd o hyd i’r offer, ei brynu a’i ddosbarthu i ysgolion cyn iddynt ailagor.

Dywedodd eto bod y gwaith a'r cynllunio'n parhau ar gyfer y tymor newydd ym mis Medi, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau pellach, boed yn lleol neu'n genedlaethol, ac yn dilyn cyngor gan Lywodraeth Cymru.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor nifer o gwestiynau i'r swyddogion ynghylch y pynciau a'r materion a drafodwyd uchod, ac ymatebodd y swyddogion yn briodol.

Roedd y Cadeirydd am ddweud diolch ar ei ran ef ac ar ran y pwyllgor i’r ddau swyddog sy’n gweithio’n ganolog yn yr adran addysg, a'r holl staff sy'n gweithio mewn ysgolion, a chyfleu ei werthfawrogiad o'r holl waith a'r ymdrech a wnaed ganddynt wrth ddarparu a chynnal y ddarpariaeth addysg i bobl ifanc ledled y ddinas mewn amgylchiadau ingol ac anodd iawn yn ystod y cyfyngiadau symud ac ers llacio’r cyfyngiadau’n rhannol ac wrth ailagor ysgolion.

Adleisiwyd a chefnogwyd sylwadau’r Cadeirydd gan aelodau'r pwyllgor.

Dywedodd y Cadeirydd hefyd gan y byddai adroddiad drafft y Cabinet ar gael ar ddiwedd mis Gorffennaf, y byddai angen trefnu cyfarfod arbennig o'r pwyllgor ym mis Awst i ystyried hyn. Gallai’r  cyfarfod arbennig hefyd gynnwys diweddariad gan swyddogion ac adroddiad cwmpasu sy'n cynnwys y meysydd a godwyd ac a drafodwyd uchod gan gynnwys pynciau megis isadeiledd digidol a gallu, dysgu o bell/dysgu cyfunol, dyluniad/cynllun ysgolion, adborth gan arolygon rhieni etc.

**Cytunwyd** i gynnal cyfarfod arbennig o'r pwyllgor ddydd Mercher 5 Awst am 4pm i ystyried y ddau adroddiad a amlinellwyd uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.52 pm

**Cadeirydd**